# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 13 Rhagfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd E. Penn.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft, sydd ynghlwm yn Atodiad A i adroddiad y Cabinet, yn cael ei nodi.

(2) Y DYLID nodi'r dull ymgynghori a'r amserlen yn ogystal â'r dull a gymerwyd hyd yma i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, fel y nodir yn yr adroddiad

(3) BOD cais yn cael ei wneud i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol am gynnal gweithdy gydag Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ganiatáu trafodaeth bellach a dadl ar gynnwys Cynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023-24 sy'n ymwneud â'r cylch gorchwyl o Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet atodedig i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2023-24.

(3) Er mwyn caniatáu mwy o fewnbwn gan Aelodau i Gynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023-24.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL PERFFORMIAD CHWARTER 2 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’r canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy’n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY A ENWEBWYD GAN Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (PW) –

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor Sgriwtini yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylid penodi'r Cynghorydd J. Aviet fel y dirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Penodi dirprwy gynrychiolydd i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.